| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **22 Medi 2015** |
| **TEITL YR EITEM** | **Prosiect yr 'Her Gofal'** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Gareth Roberts** |
| | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Prosiect 'Her Gofal' yn un o brosiectau Cynllun Strategol y Cyngor ac yn allweddol i'r newidiadau yr ydym yn ceisio rhoi yn eu lle yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Yr 'Her' ydy trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar agenda ariannol heriol yr ydym yn ei wynebu. Mae'r prosiect hwn yn anelu i hwyluso'r gwaith o drawsnewid.

1.2 Daw'r Ddeddf newydd i rym yn Ebrill 2016. Mae pwyslais o fewn y Ddeddf ar 'lesiant' a chefnogi unigolion bregus o fewn y gymuned, felly mae'n anorfod y bydd raid trawsnewid os am gwrdd ar gofynion. Rhan allweddol o'r prosiect ydy codi ymwybyddiaeth o'r angen dros newid, adnabod cryfderau cymunedau ac ymateb i unrhyw fylchau.

1.3 Yn Atodiad 1 a 2, cyflwynir Briff a Chynllun Prosiect. Mae'r Briff yn amlinellu nod, amcanion a phrif gerrig milltir ar gyfer y prosiect ac mae'r Cynllun Prosiect yn manylu ar y rhaglen waith. Byddwn yn adeiladu ac ychwanegu at y rhaglen waith fel mae'r gwaith yn datblygu.

1.4 Mae cynnwys budd-ddeiliaid yn y gwaith hwn yn allweddol os yw'r trawsnewid am lwyddo. Rydym wedi ffurfio grwpiau ffocws staff i'n cynorthwyo gyda'r gwaith ac mae bwriad i gynnal **grŵp ffocws gydag Aelodau ar 29 Medi 2yh - 4yh ym Mhorthmadog**. Mae gwaith ar y gweill hefyd i ymgysylltu gyda defnyddwyr, partneriaid allweddol a chymunedau.

## 2. Argymhellion

2.1 Gofynnir am sylwadau Aelodau ar y Briff a Chynllun Prosiect
2.2 Gofynnir am fewnbwn Aelodau i'r prosiect drwy gymryd rhan yn y Grŵp Ffocws Aelodau ar 29 Medi 2015.